DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Practis Deintyddol Buckley

31 Mawrth 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
Merthyr Tudful
**CF48 1UZ**


Neu drwy:


Rhif ffôn:0300 062 8163
E-bost:hiw@cymru.gsi.gov.uk
Facs:0300 062 8387
**Gwefan:** http://hiw.org.uk/?skip=1&lang=cy



ISBN Digidol 978-1-4734-6525-1


© Hawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 2

2. Cyd-destun .......... 3

3. Crynodeb .......... 4

4. Canfyddiadau .......... 5

    Ansawdd Profiad y Claf .......... 5

    Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 8

    Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 12

6. Camau Nesaf .......... 14

7. Methodoleg .......... 15

    Atodiad A .......... 17

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Prif ddiben AGIC yw:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y mae gwasanaethau iechyd yn cael eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Gwnaeth AGIC gwblhau arolygiad o Bractis Deintyddol Buckley ar Padeswood Road North, Bwcle, Sir y Fflint CH7 2JL ar 31 Mawrth 2016.

Edrychodd AGIC ar sut yr oedd Practis Deintyddol Buckley yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chyngor perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau’n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn hwyluso gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Buckley yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Bwcle yn Sir y Fflint. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae Practis Deintyddol Buckley yn bractis cymysg sy’n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae staff y practis yn cynnwys 3 deintydd, 4 nyrs ddeintyddol gofrestredig, 1 dirprwy reolwr, sydd hefyd yn nyrs ddeintyddol gofrestredig, 1 hylenydd ac un derbynnydd. Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

## 3. Crynodeb

Gwnaethom wahodd cleifion i ddweud wrthym am eu profiadau o ddefnyddio'r practis. Dywedodd cleifion a gwblhaodd yr holiaduron a'u dychwelyd wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir. Roedd gan y practis weithdrefn ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion). Roedd yn gyson â *Gweithio i Wella*, y trefniadau sydd ar waith er mwyn ymateb i bryderon ynghylch gofal y GIG yng Nghymru.

Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer cynnal sganiau pelydr-X mewn ffordd ddiogel. Roedd staff wedi erbyn hyfforddiant ar sut i ymateb pe bai argyfwng claf (llewygu) ac roedd ganddynt fynediad at gyffuriau a chyfarpar brys. Roedd trefniadau ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff a gynhyrchir gan y practis. Dangosai'r staff fod proses foddhaol ar waith ar gyfer dadheintio offer deintyddol. Yn gyffredinol, canfuom fod cofnodion deintyddol wedi cael eu cadw i safon dda.

Roedd dirprwy reolwr yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt gyfleoedd hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swyddi, a'u bod yn teimlo bod cyfathrebu da iawn o fewn y tîm. Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith, gyda'r nod o ddarparu gwasanaethau deintyddol  diogel. Roedd y rhain yn cynnwys polisïau diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd staff wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Roedd hyfforddiant pellach yn y ddau faes wedi'i drefnu. Cynhaliwyd archwiliadau mewn rhannau gwahanol yn y practis.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwnaethom wahodd cleifion i ddweud wrthym am eu profiadau o ddefnyddio'r practis. Dywedodd cleifion a gwblhaodd holiaduron a'u dychwelyd wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir. Roedd gan y practis weithdrefn ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion).Roedd yn gyson â Gweithio i Wella, sef y trefniadau ar gyfer ymdrin â phryderon am ofal y GIG yng Nghymru.**

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC ymysg cleifion er mwyn cael safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd dau ddeg chwech o holiaduron i gleifion. Ymysg sylwadau'r cleifion roedd:

> *"Practis arbennig sy'n gofalu am ei gwsmeriaid". "Y cwsmer sy'n dod yn gyntaf bob tro".*
>
> *"Mae'r staff yn gyfeillgar, yn barod i helpu ac yn hyfryd".*
>
> *"Os mae'n bosib mwynhau ymweliad â'r deintydd, rydyn ni'n mwynhau dod yma".*
>
> *"Bodlon iawn".*

Dywedodd y cleifion a roddodd sylwadau yn yr holiaduron fod y staff yn groesawgar iawn, yn gwrtais, ac yn barod eu cymwynas. Roedd cleifion yn fodlon iawn ar faint o wybodaeth a ddarparywd; gan gynnwys y cyngor a'r cymorth a gawsant pan oedd angen esboniadau pellach ynghylch triniaeth.

Dywedodd chwe chlaf wrthym eu bod wedi profi oedi wrth aros i gael eu gweld gan y deintydd, ond yn gyffredinol dangoswyd nad oedd hyn wedi achosi problem iddynt. Roedd proses ar waith i roi gwybod i gleifion os yw eu deintydd yn rhedeg yn hwyr.

Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion, ynghyd ag oriau agor y practis a'r rhif cyswllt y tu allan i oriau (argyfwng), wedi'u harddangos yn y ffenest ger y brif fynedfa.

Er hyn, dywedodd 5 o'r 26 a roddodd sylwadau yn yr holidaruon wrthym nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaethau hyn. Mae'n bosibl y bydd perchennog y practis a dirprwy reolwr y practis yn dymuno ystyried sut i godi rhagor o ymwybyddiaeth ynglŷn â hyn.

Gwelsom fod taflen wybodaeth practis gynhwysfawr ar gael, ac roedd hon yn cynnwys gwybodaeth ymarferol a defnyddiol. Roedd taflenni gwybodaeth ychwanegol am ffyrdd iach o fyw a rhoi’r gorau i ysmygu ar gael.

Roedd y practis wedi asesu safbwyntiau cleifion ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir drwy ddefnyddio holiaduron cleifion. Caiff yr arolwg hwn ei archwilio bob deuddeng mis. Gwelsom fod canlyniadau'r arolwg diwethaf wedi cael eu harchwilio i nodi unrhyw themâu a bod y canlyniadau’n gadarnhaol ym mhob maes. Roedd blwch sylwadau ar gyfer sylwadau cleifion ar gael ar lawr daear y man aros. Er bod y canlyniadau wedi'u harchwilio, nid oeddent ar gael i'r cleifion ar y pryd.  Gwnaethom awgrymu y dylid sicrhau bod y canlyniadau ar gael i'r cleifion.

Nid oedd lle parcio dynodedig ar gyfer y practis at ddefnydd y cleifion. Fodd bynnag, mae maes parcio cyhoeddus ar gael gerllaw.

Roedd y practis yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu'r rhai sydd ag anawsterau symudedd.

Byddai gofynion ieithyddol cleifion yn cael eu diwallu'n fewnol e.e.  y Gymraeg.

Roedd y practis yn darparu gofal a thriniaeth breifat, a gofal a thriniaeth y GIG, ac roedd gweithdrefn ysgrifenedig ar waith i gleifion allu mynegi pryderon (cwynion). Roedd y weithdrefn yn bodloni gofynion y rheoliadau deintyddiaeth breifat ac yn cydymffurfio â *Gweithio i Wella*, sef y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion am ofal y GIG yng Nghymru.

Gwelsom dystiolaeth fod pryderon (cwynion) ffurfiol/ysgrifenedig yn cael eu cofnodi mewn ffeil gwynion. Dywedwyd wrthym fod cwynion ar lafar / anffurfiol yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion. Gwnaethom awgrymu y dylid cofnodi cwynion anffurfiol i ganfod unrhyw themâu a'u nodi. Caiff cwynion eu trafod yn ystod cyfarfodydd y practis er mwyn rhannu profiadau dysgu, gyda'r bwriad o wella'r gwasanaeth.

Dywedodd staff wrthym y byddent yn gyfforddus wrth leisio unrhyw bryderon yn ymwneud â gwaith gydag uwch staff y practis.

Wrth holi cleifion ynghylch y weithdrefn i'w dilyn, dywedodd 11 o’r cleifion a ddychwelodd yr holiaduron wrthym nad oeddent yn ymwybodol o sut i wneud cwyn. Yn ogystal, gwnaeth rhai cleifion sylwadau'n dweud nad oeddent erioed wedi gorfod gwneud cwyn. Gwnaethant hefyd nodi y gallent gael gafael ar y wybodaeth hon pa bai angen. Roedd gwybodaeth i gleifion ynglŷn â sut i leisio pryder (cwyn) ar gael yn y practis. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd perchennog y practis a dirprwy reolwr y practis yn dymuno ystyried sut i godi rhagor o ymwybyddiaeth ynglŷn â hyn.

Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn darparu triniaeth preifat yn bennaf, ond roedd rhai gwasanaethau deintyddol y GIG hefyd yn cael eu cynnig. Roedd manylion bandiau prisio'r GIG ar gyfer triniaeth wedi’u harddangos, ynghyd â gwybodaeth am gymhwyster cleifion ar gyfer triniaeth am ddim. Roedd prisiau hefyd ar gael ar gyfer gwasanaethau deintyddol preifat. Roedd hyn yn golygu bod cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn gallu cael gwybodaeth am faint y byddai angen iddynt ei dalu am eu triniaeth ddeintyddol.

## *Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol*

**Gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer cynnal sganiau pelydr-X mewn ffordd ddiogel.Roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfwng claf (llewygu) ac roedd ganddynt fynediad at gyffuriau ac offer brys.Roedd trefniadau ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff a gynhyrchir gan y practis. Dangosai'r staff fod proses briodol ar waith ar gyfer dadheintio'r offer deintyddol.Yn gyffredinol, canfuom fod cofnodion deintyddol cleifion wedi'u cadw i safon uchel.**

Mae Practis Deintyddol Buckley mewn adeilad tŷ pâr sy'n agos i'r ganolfan manwerthu ym Mwcle.

Roedd yn ymddangos bod blaen yr adeilad wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, ac roedd arwyddion yn nodi'r practis. Mae tu mewn yr adeilad yn olau ac yn lân, ac mae awyrgylch gwresog a chyfeillgar.

Roedd y practis yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu'r rhai sydd ag anawsterau symudedd.

Roedd y cyfleusterau yn y practis wedi'u trefnu dros ddau lawr. Roedd y llawr daear yn cynnwys derbynfa, ystafell aros, dwy ystafell driniaeth ac ystafell storio ddiogel. Ar y llawr cyntaf, roedd ystafell ddadheintio, cyfleusterau staff, un ystafell driniaeth arall a thŷ bach. Nodwyd y byddai angen ail-selio rhai arwynebau gwaith ryw bryd. Mae’r gwaith hwn wedi'i drefnu ar gyfer 30 Ebrill 2016. Mae cyfleusterau tŷ bach ar gyfer cleifion ar gael ar y llawr cyntaf. Roedd y rhain yn cynnwys cyfleusterau ymolchi dwylo a thywelion papur i leihau achosion o groes-heintio.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân, ac roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn amryw o leoliadau o fewn adeilad y practis. Roedd labeli cynnal a chadw yn nodi bod diffoddwyr tân wedi cael eu gwirio mewn ymweliad gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd hyn yn golygu bod gan staff a chleifion wybodaeth fel bod modd iddynt adael yr adeilad yn ddiogel pe byddai tân, a bod offer diffodd tân ar gael i'r staff eu defnyddio pe bai angen.

Mae gwaith cynnal a chadw yr adeilad, y cyfleusterau ac offer ar system 12 mis.

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Roedd gwastraff y practis yn cael ei storio'n ddiogel tra oedd yn aros i gael ei gasglu. Dywedwyd wrthym fod y cywasgwr yn cael ei archwilio'n ddyddiol, a bod cofnod o hynny ar gael.

Defnyddiwyd ystafell ddadheintio'r practis hefyd fel ystafell staff. Mae'r practis yn bwriadu neilltuo ystafell ddadheintio ar wahân yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) [1]. Dylai hyn, ynghyd â'r defnydd o weithdrefnau rheoli addas, leihau'r risg o groes-heintio rhwng offer deintyddol, yn unol â'r arferion gorau argymelledig.

Gwnaethom arsylwi ar aelod o staff yn ystod y broses ddadheintio a chanfod bod hon yn hollol foddhaol.

Roedd gan y practis ddau awtoclaf (a ddefnyddir ar gyfer sterileiddio offer deintyddol), ac roedd ganddynt dystysgrifau arolygu cyfredol.

Roedd stribedi profi ar gael ac roeddent yn dangos bod profion dyddiol wedi'u cynnal er mwyn canfod a oedd yr offer awtoclaf wedi cyrraedd tymheredd sterileiddio addas a bod hwn yn cael ei gynnal am gyfnod penodol. Roedd llyfrau cofnod ar gael i ddangos a oedd profion rheolaidd eraill, a nodir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, wedi'u cynnal ar yr awtoclafau ac i gadarnhau eu bod yn addas at eu defnydd arfaethedig o hyd, yn unol â'r arferion gorau argymelledig. Gwnaethom argymell y dylai'r practis adolygu'r arfer cyfredol a ddefnyddir (defnydd o ddŵr) i lanhau offer yn dilyn y broses bath uwchsonig. Dylai'r practis adolygu a chadarnhau tymheredd sylweddau glanhau yn unol â chyfarwyddiadau a chanllawiau'r gwneuthurwr o ran glanhau blaenau offer uwchsonig. Mae'n bosibl y bydd y practis yn dymuno ystyried a oes angen adolygu'r "menig trwchus" sy'n cael eu defnyddio yn y broses lanhau. Mae'r practis wedi cadarnhau ei fod wedi cynnal yr adolygiadau ac wedi dilyn unrhyw gyngor a awgrymwyd. Gwelsom fod offer wedi'u pecynnu ar ôl sterileiddio a'u rhoi mewn dreir llawfeddygaeth. Roedd tîm y practis wedi cofnodi'r dyddiad un mis ar gyfer yr offer, i nodi erbyn pryd roedd rhaid eu defnyddio.

Roedd gan staff fynediad at offer dadebru a chyffuriau brys pe bai argyfwng claf (llewyg) yn y practis.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i berfformio dadebru cardio-pwlmonaidd (CPR) yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd y tystysgrifau hyfforddiant a welsom yn cadarnhau hyn. Argymhellwyd y

[1] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

dylai staff y practis ystyried cynnal sefyllfaoedd dadebru cardio-pwlmonaidd fel sail i hyfforddiant.

Dywedodd staff wrthym fod system ar waith i nodi a newid cyffuriau yr oedd eu dyddiadau wedi dod i ben (gwiriad misol) a gwirio'r cyfarpar brys yn y practis yn ddyddiol. Gwnaethom archwilio'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys a gwelsom eu bod o fewn eu dyddiad dod i ben. Gwnaethom gynghori hefyd y dylid cadw silindr ocsigen brys mewn lleoliad arall am resymau diogelwch. Gwnaethpwyd hyn ar ddiwrnod yr ymweliad.

Roedd llyfrau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio er mwyn atal unrhyw un heb awdurdod rhag eu defnyddio. Serch hynny, argymhellir y dylid cadw cofnod o'r holl bresgripsiynau gwag a'r presgripsiynau a roddwyd. Gwnaethom hefyd argymell y dylai'r practis sicrhau bod y daflen feddyginiaeth fwyaf cyfredol yn cael ei darparu â'r meddyginiaeth a ddosbarthwyd, wrth ddosbarthu niferoedd llai o wrth-fiotigau.

Gwelsom fod trefniadau ar gael ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel. Roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cynnwys yr holl ddogfennau perthnasol a'r wybodaeth ofynnol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd tystysgrif gyfredol ar gael ar gyfer un aelod o staff. Mae hon bellach wedi cael ei hanfon ymlaen at AGIC. Roedd tystysgrif gwiriad diogelwch gyfredol ar gyfer y cyfarpar ar gael. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel. Roedd rheolau lleol (ar gyfer defnyddio a thynnu pelydrau-X) ar gael. Gwnaethom nodi yr oedd asesiad risg cyfredol ar gael ynghylch diffyg defnyddio bathodynnau dos ymbelydredd personol.

Roedd pelydrau-X traddodiadol yn cael eu defnyddio, ac roedd system sicrhau ansawdd ar waith i sicrhau bod ansawdd delwedd y rhain yn cael ei raddio a'i gofnodi.

Gwnaethom adolygu sampl o ddeg o gofnodion deintyddol cleifion. Roedd y sampl hon yn cynnwys cofnodion a oedd wedi cael eu cwblhau gan bob un o'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis.

Yn gyffredinol, gwelsom fod y cofnodion wedi'u cadw i safon uchel, ac roedd nodiadau yn cael eu cofnodi'n gyson ac yn gynhwysfawr. Canfuom fod cyngor ar risgiau a manteision triniaethau a thriniaethau amgen wedi'u cofnodi; roedd cynlluniau triniaeth wedi cael eu llofnodi gan gleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd atgyfeiriadau o'r deintydd i'r hylenydd yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r claf bob amser. Roedd rhai dogfennau hefyd yn gofyn am fanylion am pwy oedd wedi hebrwng plentyn a/neu oedolyn sy'n agored i niwed pan gwnaethant fynychu apwyntiad.

Gwelsom fod arolygiad ac archwiliad o gofnodion wedi'u cwblhau yn Ionawr 2016; dylai hyn gynorthwyo i sicrhau bod holl adrannau dogfennau'r claf yn gwbl gyflawn.

Roedd gan y practis bolisïau ysgrifenedig ar waith ynghylch amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd manylion cyswllt y timau diogelu lleol ar gael fel bod modd i staff gael y wybodaeth am bwy i gysylltu â nhw ar gyfer cyngor ar faterion diogelu. Roedd y staff wedi mynychu hyfforddiant ar amddiffyn plant ac ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ac roedd hyfforddiant pellach wedi'i gynllunio a'i drefnu.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd dirprwy reolwr y practis yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt gyfleoedd hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swyddi, a'u bod yn teimlo bod cyfathrebu da o fewn y tîm. Cynhelir cyfarfodydd briffio staff rheolaidd.**

**Mae nifer o bolisïau a dulliau ar waith gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaethau deintyddol diogel. Mae'r rhain yn cynnwys polisïau i ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd staff wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ac roedd hyn yn barhaus.Cynhaliwyd archwiliadau mewn rhannau gwahanol o'r practis.**

Roedd dirprwy reolwr practis yn gyfrifol am gynnal y practis o ddydd i ddydd ac esboniodd y byddai hi'n cyflawni dyletswyddau aelodau eraill o'r tîm yn ôl yr angen. Roedd dirprwy reolwr y practis yn gyfarwydd iawn ac yn gwybod llawer am holl agweddau'r practis a dangosodd ymrwymiad clir i gadw a gwella ansawdd a safonau o fewn y practis.

Cadarnhaodd dirprwy reolwr y practis fod yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis wedi cael eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwelsom gofnodion yn cadarnhau bod ganddynt yswiriant indemniad dilys ar waith.

Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG. Er mwyn i ddeintyddion ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru, mae'n rhaid iddynt gofrestru ag AGIC. Gwelsom fod gan ddeintyddion dystysgrifau cyfredol AGIC a oedd yn cadarnhau eu cofrestriad. Roedd y rhain wedi'u harddangos yn amlwg yn unol â'r rheoliadau perthnasol ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Roedd cofnodion ar gael hefyd a oedd yn cadarnhau bod staff clinigol sy'n gweithio yn y practis wedi derbyn brechiadau rhag hepatitis B. Roedd hyn yn golygu bod y staff wedi cymryd camau priodol i sicrhau eu diogelwch eu hunain a'u cleifion yn erbyn firysau sy'n cael eu cludo yn y gwaed.

Siaradom â nifer o staff sy'n gweithio yn y practis ar ddiwrnod ein harolygiad. Esboniodd y staff eu bod yn gallu cael hyfforddiant perthnasol i'w swydd a'u datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Gwelsom sampl o dystysgrifau hyfforddiant staff a oedd yn dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn cael eu trin gan staff sy'n meddu ar y sgiliau priodol a hyfforddiant cyfredol.

Dywedodd y staff wrthym y cynhelir cyfarfodydd practis fel arfer bob mis, ac y trafodir pynciau perthnasol i'w gwaith yn y cyfarfodydd hyn. Gwnaethant gadarnhau eu bod yn cael mynegi problemau ynglŷn â'u gwaith a'u trafod yn y cyfarfodydd hyn. Gwelsom fod agenda a chofnodion ar gael. Gwnaethom gynghori’r practis y dylid cofnodi'r cyfarfodydd briffio a threfnu bod y cofnodion ar gael i aelodau'r staff. Cynhaliwyd arfarniadau staff.

Cynhelir adolygiadau gan gymheiriaid yn rheolaidd, ond nid oedd tystiolaeth o hyn ar gael i ni. Felly, gwnaethom gynghori’r practis y dylid cofnodi'r adolygiadau hyn. Mae'r tîm staff yn defnyddio’r cyfnod cyn ac ar ôl amser cinio i drafod canlyniadau archwiliadau, i 'wrando a dysgu' ynghylch technegau/datblygiadau newydd o fewn maes deintyddiaeth. Eto, gwnaethom gynghori y dylid cofnodi'r adolygiadau hyn.

Roedd gan y practis ystod gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol â'r nod o ddarparu gwasanaethau deintyddol diogel i'r cleifion.

Roedd system ar waith i sicrhau bod yr holl aelodau staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch unrhyw newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau a rhybuddion. Mae'n rhaid i aelodau staff lofnodi i ddatgan eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau hyn. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori’r practis y byddai cael dalen fynegai ganolog o bosibl yn gymorth, gan nodi dyddiad y polisi, rhif y fersiwn a dyddiad yr adolygiad.

Mae dirprwy reolwr y practis yn cynnal nifer gynhwysfawr o archwiliadau ar raglen barhaus ac roedd y rhain yn cynnwys:

- Radiograffau, sicrwydd ansawdd ffilm pelydr-Radiographs, x.
- Cydlofnodi, gan gynnwys risg canser y geg, hanes meddygol y claf.
- Archwilio dulliau cadw cofnodion.
- Atgyfeiriadau ar gyfer cyngor arbenigol.
- Archwiliad o driniaeth.
- Perygl mercwri.
- Defnydd o wrthfiotigau.
- Rheoli heintiau.

Roedd canlyniadau'r archwiliad yn ganolog i'r rhan Gwersi a ddysgwyd', a thrafodwyd hyn ag aelodau o staff. Cymeradwyir hyn fel arfer ardderchog.

## 6. Camau Nesaf

Ni arweiniodd y canfyddiadau o'r arolygiad hwn at yr angen i'r practis gwblhau cynllun gwella.

## 7. Methodoleg

Mae’r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) yn ganolog i ddull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i’r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae’r safonau’n allweddol i’r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**<u>Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal</u>**




Bydd unrhyw ddeintydd sy’n gweithio yn y practis sydd wedi’i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

---

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwiliad o bolisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwiliad o'r offer a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Buckley

## Dyddiad yr arolygiad: 31 Mawrth 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Graddfa amser |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| | ***Nid oes angen unrhyw welliannau*** | | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| | ***Nid oes angen unrhyw welliannau*** | | | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| | ***Nid oes angen unrhyw welliannau*** | | | | |